

SL(5)749 - Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021

Cefndir a Diben

Mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu targedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Mae adran 29 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 ganran benodedig yn is na'r waelodlin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 29 o Ddeddf 2016 trwy newid y ganran yn isadran (1). Effaith y diwygiad yw bod isafswm y ganran y mae rhaid i gyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 fod yn is na'r waelodlin wedi ei gynyddu o 80 y cant i 100 y cant.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o bedwar offeryn y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021.

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r rhaglith Saesneg yn cyfeirio at ddrafft o'r rheoliadau fel a ganlyn: "laid before and approved by a resolution of *the* Senedd Cymru." [*ychwanegwyd pwyslais*]. Mae'n ymddangos mai gwall yw cynnwys y fannod, gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfeirio at "Senedd Cymru" drwyddi draw, heb "the" o flaen yr enw.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Pwyllgor wedi codi 1 pwynt technegol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y rhaglith yn cyfeirio at y ffaith bod drafft o'r Rheoliadau wedi ei osod gerbron "the Senedd Cymru" ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae hyn yn anghyson â'r diffiniad, yn Ndedd Llywodraeth Cymru 2006, o "Senedd Cymru", hynny yw, heb y fannod.

Rydym yn derbyn bod cynnwys y fannod yn wall. Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y gwall hwn ei gywiro yn y fersiwn a lofnodir gan y Gweinidog.

Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

